# Grantiau Cysylltiadau Drwy Ddiwylliant 2026 Cwestiynau Cyffredin

**Beth yw'r dyddiad cau i geisiadau?**
Mae'r broses ymgeisio'n agor am 12:00 (amser y DU) ar 17 Mehefin 2026, ac yn cau am 23:59 (amser y DU) ar 12 Awst 2026. Dylai ymgeiswyr adael digon o amser i gwblhau'r cais a llwytho'r holl ddogfennau angenrheidiol i fyny cyn y dyddiad cau.

**Pwy sy'n gallu ymgeisio?**
Mae'n rhaid i geisiadau gynnwys o leiaf un partner o'r DU ac un partner o wlad gymwys sy'n cymryd rhan yn y rhaglen (gwlad gyfranogol gymwys). Derbynnir ceisiadau gan artistiaid, ymarferwyr creadigol, gweithwyr proffesiynol ym maes diwylliant, sefydliadau, gwyliau, gwyliau dwyflynyddol, hybiau, rhwydweithiau a mentrau cydweithio – yn amodol ar gymhwysedd a gofynion cyfreithiol neu drethol lleol.

**Ydy unigolion yn gallu ymgeisio?**
Ydyn. Gall unigolion ymgeisio os ydynt yn ateb gofynion cyfreithiol a threthol lleol ac yn gallu derbyn a rheoli cyllid grant. Ond, mae'n bosibl y bydd rhai gwledydd neu brosesau talu'n mynnu fod ceisiadau'n cael eu harwain gan sefydliad. Cyn gwneud cais, dylai ymgeiswyr wirio unrhyw ofynion cyfreithiol, trethol neu gofrestru penodol ar gyfer unrhyw wlad sy'n berthnasol i'r cais. Gall myfyrwyr addysg uwch sy'n 18 oed neu'n hŷn fod yn gymwys i wneud cais fel unigolion. Ond, maent yn gyfrifol am sicrhau bod ganddynt hawl i gyflawni'r gweithgaredd arfaethedig, gan gynnwys unrhyw gyfyngiadau o ran oriau gwaith, gwaith cyflogedig, cytundebu, hunan-gyflogaeth neu amodau derbyn cyllid grant. Dylai'r cynllun a'r gyllideb ar gyfer y prosiect arfaethedig fod yn realistig gan adlewyrchu'r hyn y caniateir i'r ymgeisydd ei gyflawni.

**Ydy sefydliadau'n gallu ymgeisio?**
Ydyn. Gall sefydliadau ymgeisio cyhyd â'u bod yn ateb gofynion cymhwysedd y rhaglen ac yn gallu dangos fod y prosiect arfaethedig yn seiliedig ar bartneriaeth a chydweithio ystyrlon rhwng y DU a gwlad gyfranogol gymwys. Gall sefydliadau cymwys gynnwys: sefydliadau celfyddydol a diwylliannol; gwyliau; gwyliau dwyflynyddol; hybiau; rhwydweithiau; mentrau cydweithio; a sefydliadau sy'n gweithio ar draws y celfyddydau, diwylliant a'r sectorau creadigol. Dylai ceisiadau ar gyfer prosiectau a drefnir gan (neu sy'n rhan o) wyliau Celf Weledol a Phensaernïaeth, Dylunio, Ffasiwn a Chrefft gael eu cyflwyno gan yr ŵyl ac nid gan unigolion.

**Ydy gwyliau a gwyliau dwyflynyddol yn gallu ymgeisio?**
Ydyn. Gall gwyliau a gwyliau dwyflynyddol ymgeisio cyhyd â'u bod yn ateb gofynion cymhwysedd y rhaglen ac yn gallu dangos y bydd y prosiect arfaethedig yn hwyluso

cydweithredu ystyrlon rhwng y DU a gwlad gyfranogol gymwys. Gallai hynny olygu gweithio gydag artist sy'n cymryd rhan yn yr ŵyl neu'r ŵyl ddwyflynyddol. Dylai cais gan ŵyl neu ŵyl ddwyflynyddol ddangos rôl pob partner yn glir, natur ymgysylltiad cyhoeddus y prosiect, a'r budd ehangach a ddaw o'r cydweithredu. Mae croeso i wyliau sy'n cael eu cynnal yn llai rheolaidd, er enghraifft gwyliau teirblwydd, wneud cais hefyd.

**Ydy preswyliadau'n gymwys?**
Ydyn. Gall preswyliadau fod yn gymwys lle bo cydweithredu, cyfnewid a rhannu dysgu'n rhan ganolog o'r cynnig.

**Ydy ceisiadau ar gyfer comisiynau newydd neu fentrau ymchwil a datblygu'n gymwys?**
Ydyn. Gellir ystyried ceisiadau ar gyfer comisiynau newydd neu fentrau ymchwil a datblygu cyhyd â'u bod yn rhan o brosiect cydweithredu ystyrlon sy'n ateb gofynion cymhwysedd y rhaglen. Dylai ymgeiswyr esbonio natur y broses gydweithio, rolau'r partneriaid, canlyniadau arfaethedig y prosiect a sut mae'r gweithgaredd yn hybu cysylltiad diwylliannol hirdymor. O ran prosiectau sy'n canolbwyntio ar weithgaredd arddangos, dylai ymgeiswyr nodi os ydynt yn gwneud cynnig ar gyfer gwaith sy'n bodoli'n barod, datblygiad newydd, neu fenter gydweithio hirach. Wrth fframio'r cynnig, dylent gyfeirio at y meini prawf mwyaf perthnasol o ran gofynion cymhwysedd rhaglen Cysylltiadau Drwy Ddiwylliant.

**Ydy digwyddiadau arddangos yn gymwys?**
Ydyn. Mae digwyddiadau arddangos, arddangosfeydd, cyflwyniadau, gwyliau a gwyliau dwyflynyddol yn gymwys i ymgeisio os ydynt yn rhan o brosiect cydweithredol. Gall hynny gynnwys gweithgaredd sydd wedi derbyn cefnogaeth o'r blaen drwy fentrau eraill y British Council, gan gynnwys rhaglen Cysylltu Gwyliau Dwyflynyddol a'n Rhaglen Grantiau ar gyfer Gwyliau a Gwyliau Dwyflynyddol ym meysydd Pensaernïaeth, Dylunio, Ffasiwn a Chrefftau.
O ran ymarferwyr ym meysydd Pensaernïaeth, Dylunio, Ffasiwn a Chrefftau, gall cymryd rhan mewn digwyddiad arddangos rhyngwladol (gan gynnwys gwyliau dwyflynyddol, wythnosau dylunio, platfformau ffasiwn, gwyliau pensaernïaeth a gwyliau crefft) gyfrif fel prif weithgaredd prosiect Cysylltiadau Drwy Ddiwylliant, ac nid elfen eilaidd yn unig. Dylai ceisiadau roi disgrifiad clir o'r broses gydweithio ar gyfer elfen arddangos y prosiect rhwng y partner yn y DU a'r partner yn y wlad gyfranogol gymwys. Gall hyn gynnwys amlinelliad o'r ffordd y bydd y gwaith yn cael ei ddatblygu, ei guradu, ei gyflwyno, ei ddehongli, ei roi mewn cyd-destun neu'i rannu â chynulleidfa.
Rydym hefyd yn croesawu ceisiadau gan ymarferwyr neu sefydliadau sy'n gweithio ar fentrau cydweithio lle nad yw'r elfen arddangos yn brif elfen neu weithgaredd - cyhyd â bod y cynnig yn dangos fod partneriaeth a chydweithio ystyrlon rhwng y partner yn y DU a'r partner yn y wlad gyfranogol gymwys.

Os yw ymgeisydd yn nodi fod prosiect yn cynnwys gweithgaredd sy’n gysylltiedig â gŵyl, gŵyl ddwyflynyddol neu ddigwyddiad arddangos ym meysydd Celfyddydau Gweledol neu Bensaernïaeth, Dylunio, Ffasiwn a Chrefftau, bydd y ffurflen gais yn cynnwys cwestiynau ychwanegol i gasglu’r wybodaeth benodol sydd ei angen i asesu’r cais. Dylai ceisiadau ar gyfer prosiectau sy’n cael eu trefnu gan (neu sy’n digwydd fel rhan o) wyliau Celfyddydau Gweledol, Pensaernïaeth, Dylunio, Ffasiwn a Chrefftau gael eu cyflwyno gan sefydliad yr ŵyl dan sylw, yn hytrach na gan artistiaid, dylunwyr neu ymarferwyr unigol.

**Beth sy’n gwneud cais cryf?**

Fel arfer, mae ceisiadau cryf yn:

- Rhoi esboniad clir o’r syniad creadigol a pham ei fod yn bwysig.
- Dangos pam fod y bartneriaeth yn berthnasol, ystyrlon a buddiol i’r naill bartner a’r llall.
- Cynnwys manylion costau hygyrchedd, cyfieithu, teithio, marchnata, rheoli prosiect, cynhyrchu, deunyddiau a’r broses greu yn ogystal â chostau cludo, gosod, dad-osod, a threfniadau wrth gefn lle bo hynny’n berthnasol a chymesur â’r gweithgaredd arfaethedig.
- Esbonio’r hyn mae pob partner yn ei gynnig i’r prosiect.
- Dangos mai prosiect cydweithio sydd yn yr arfaeth nid gweithgaredd hyrwyddo neu gyflwyno’n unig.
- Darparu amserlen a chyllideb realistig.
- Dangos yn glir pwy yw’r gynulleidfa, y cyfranogwyr, neu’r grwpiau sector.
- Esbonio beth yw effaith neu ganlyniad arfaethedig y prosiect, a sut bydd llwyddiant y fenter yn cael ei fesur.
- Dangos fod yr ymgeisydd wedi rhoi ystyriaeth i gydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant, mynediad, hygyrchedd, cynaliadwyedd amgylcheddol a gwerth cymdeithasol.
- Dangos fod yr ymgeisydd wedi ystyried unrhyw risgiau, a sut y gellir eu rheoli.

Mae’r ceisiadau cryfaf yn llwyddo i ddangos fod cysylltiad clir rhwng y syniad creadigol, y bartneriaeth, cynllun cyflawni’r gwaith, y gyllideb a’r canlyniadau arfaethedig.

**Beth ydych chi’n ei olygu wrth ‘bartneriaeth’ a ‘chydweithredu’?**

Mae cydweithredu (neu gydweithio) yn ganolog i raglen Cysylltiadau Drwy Ddiwylliant. Dylai ceisiadau ddangos y canlynol yn glir: sut mae’r prosiect wedi cael ei ddatblygu ar y cyd; sut mae syniad y prosiect yn adlewyrchu cyfraniad pob partner; cynllun ar gyfer cyflawni’r prosiect; cyllideb y prosiect; a buddion arfaethedig y prosiect. Dylai ymgeiswyr esbonio: pwy yw’r partneriaid; pam fod y bartneriaeth yn gwneud synnwyr; ydy’r partneriaid wedi cydweithio o’r blaen; beth fydd pob partner yn ei gyfrannu; sut bydd penderfyniadau’n cael eu gwneud; sut bydd y partneriaid yn cyfathrebu; sut bydd y prosiect yn hybu cyfnewid trawsddiwylliannol; a sut gallai’r bartneriaeth ddatblygu y tu hwnt i gyfnod y prosiect a’r grant penodol dan sylw.

O ran prosiectau Pensaernïaeth, Dylunio, Ffasiwn a Chrefftau wedi’u seilio ar ddigwyddiad(au) arddangos, gall y cydweithio fod yn rhan o’r cyd-destun arddangos. Gall hynny gynnwys y ffordd

mae'r partner yn y DU a'r partner yn y wlad gyfranogol gymwys yn gweithio gyda'i gilydd i gynhyrchu, curadu, cyflwyno, dehongli, creu cyd-destun i'r gwaith, neu ei rannu â chynulleidfa drwy ŵyl ddwyflynyddol neu ddigwyddiadau fel wythnos ddylunio, platfform ffasiwn, gŵyl bensaernïaeth neu ddigwyddiad arddangos crefftau.
Mewn achosion fel hyn, gall yr elfen arddangos fod yn ganolbwynt i'r cydweithio, cyhyd â bod y cais yn dangos pwrpas cyffredin y prosiect a'r budd a ddaw i'r ddwy ochr, a rôl y naill bartner a'r llall yn y broses. Cyn dechrau'r prosiect, dylai'r ymgeiswyr gytuno ar rolau a chyfrifoldebau clir ar gyfer holl bartneriaid y prosiect. Dylai hynny gynnwys: cyflawni'r prosiect; rheoli'r gyllideb; taliadau i artistiaid a chyflenwyr; adrodd ar weithgarwch y prosiect; cyfathrebu; diogelu; cefnogaeth hygyrchedd; eiddo deallusol; y broses gwneud penderfyniadau; a datrys gwrthdaro. Dylai ymgeiswyr roi esboniad clir o rôl unrhyw bartneriaid ychwanegol a natur eu cyfraniad i'r prosiect. Rydym yn argymell yn gryf fod yr holl bartneriaid, gan gynnwys unrhyw bartneriaid ychwanegol, yn cytuno ar rolau a chyfrifoldebau clir a dulliau clir o gydweithio cyn cychwyn ar y prosiect. Gellid amlinellu hyn mewn cytundeb rhyng-bartneriaeth neu femorandwm o ddealltwriaeth.

**Oes rhaid i fy ngais gydfynd â'r ffocws thematig a nodir gan wlad?**
Nac oes. Mae Cysylltiadau Drwy Ddiwylliant yn agored i amrywiaeth eang o bynciau, themâu, ffurfiau celfyddydol a sectorau creadigol. Os yw gwlad sy'n cymryd rhan yn y rhaglen yn nodi ffocws thematig penodol (fel newid yr hinsawdd neu gynaliadwyedd) mae hynny'n golygu fod y wlad honno'n annog ceisiadau sy'n ymateb yn benodol i'r thema neu themâu hynny. Nid yw hynny'n golygu fod ceisiadau sy'n ymdrin â thema neu themâu gwahanol yn cael eu diystyru'n awtomatig. Bydd pob cais cymwys yn cael ei asesu yn erbyn meini prawf y rhaglen. Dylai ymgeiswyr ganolbwyntio ar ddatblygu prosiect cryf a pherthnasol gan ddangos yn glir ei bod yn fenter gydweithredol sy'n cwrdd ag amcanion y rhaglen a bodloni'r meini prawf cymhwysedd.

**Sut dylai ymgeiswyr o feysydd Pensaernïaeth, Dylunio, Ffasiwn a Chrefftau fframio eu prosiect?**
Dylai ymgeiswyr o feysydd Pensaernïaeth, Dylunio, Ffasiwn a Chrefftau gyflwyno eu cais drwy raglen Cysylltiadau Drwy Ddiwylliant 2026 gan fframio eu cynnig o gwmpas prif ffocws y prosiect arfaethedig. Mae ceisiadau sy'n canolbwyntio ar gymryd rhan mewn digwyddiadau arddangos fel gwyliau dwyflynyddol, wythnosau dylunio, platfformau ffasiwn, gwyliau crefft neu raglenni ar gyfer digwyddiadau pensaernïaeth yn gymwys ar gyfer rhaglen Cysylltiadau Drwy Ddiwylliant. Gyda phrosiectau o'r fath, gall yr elfen arddangos fod yn rhan ganolog o'r cydweithio rhwng partneriaid y prosiect. Gall ymarferwyr ym meysydd Pensaernïaeth, Dylunio, Ffasiwn a Chrefftau sy'n datblygu prosiectau cydweithio mwy hirdymor, preswyliadau, mentrau ymchwil a datblygu, neu brosiectau cyd-greu lle nad yw arddangos yn brif ffocws hefyd ymgeisio ar gyfer rhaglen Cysylltu Drwy Ddiwylliant, ond dylent fframio eu cynnig o gwmpas y meini prawf cydweithio ehangach.

**Rwyf wedi gwneud cais i'r Rhaglen Grantiau ar gyfer Gwyliau a Gwyliau Dwyflynyddol ym meysydd Pensaernïaeth, Dylunio, Ffasiwn a Chrefftau o'r blaen. Ydy hynny'n berthnasol o ran rhaglen Cysylltiadau Drwy Ddiwylliant 2026?**
Roedd y Rhaglen Grantiau ar gyfer Gwyliau a Gwyliau Dwyflynyddol ym meysydd Pensaernïaeth, Dylunio, Ffasiwn a Chrefftau yn rhoi cefnogaeth i ymarferwyr gymryd rhan mewn digwyddiadau arddangos rhyngwladol (mewn cydweithrediad â phartneriaid rhyngwladol). Nawr, mae'r cynnig hwnnw'n rhan o raglen Cysylltiadau Drwy Ddiwylliant 2026. Does dim angen i chi wneud cais yn unman arall. Os yw eich prosiect yn canolbwyntio ar gymryd rhan mewn digwyddiad arddangos sy'n rhan o ŵyl ddwyflynyddol, gŵyl ddylunio, platfform ffasiwn, gŵyl bensaernïaeth neu ŵyl arddangos crefftau, yna rhaglen Cysylltiadau Drwy Ddiwylliant yw'r llwybr cywir. Dylai eich cais esbonio sut mae cyd-destun y cyfle arddangos yn hybu cydweithio ystyrlon rhwng y partner yn y DU a'r partner mewn gwlad gyfranogol gymwys.
Rydym hefyd yn croesawu ceisiadau i raglen Cysylltiadau Drwy Ddiwylliant 2026 gan ymarferwyr neu sefydliadau sy'n gweithio ar fentrau cydweithio hirdymor lle nad yw'r elfen arddangos yn brif ffocws, cyhyd â bod y prosiect yn dangos fod cydweithio ystyrlon rhwng y partner yn y DU a'r partner mewn gwlad gyfranogol gymwys.
Dylai unrhyw ymgeiswyr sy'n ansicr am sut i fframio eu cais gysylltu â'r British Council drwy'r ffurflen ymholiadau.

**Beth mae 'partner yn y DU' neu 'partner mewn gwlad gyfranogol gymwys' yn ei olygu?**
Mae 'partner yn y DU' yn golygu unigolyn neu sefydliad sydd wedi'i leoli'n gyfreithiol yn y DU ar adeg cyflwyno'r cais a thrwy gydol cyfnod cyflawni'r prosiect. Mae 'partner mewn gwlad gyfranogol gymwys' yn golygu unigolyn neu sefydliad sydd wedi'i sefydlu'n gyfreithiol yn un o'r gwledydd cymwys sy'n cymryd rhan yn y rhaglen ar adeg cyflwyno'r cais a thrwy gydol cyfnod cyflawni'r prosiect. Seilir cymhwysedd ar ble mae'r ymgeisydd neu'r partner wedi'i leoli'n gyfreithiol a'u gallu i dderbyn a rheoli cyllid grant, yn hytrach nag ar genedligrwydd neu ddinasyddiaeth. Rhaid i ymgeiswyr sicrhau eu bod wedi cofrestru'n briodol, gan gynnwys at ddibenion trethol lle bo gofyn. Rhaid iddynt sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r holl ddeddfau a rheoliadau perthnasol yn y wlad lle maent wedi'u lleoli a lle y bydd y gweithgarwch a ariennir yn cael ei gynnal. Lle bod gofynion cyfreithiol, trethol neu gofrestru sy'n benodol i'r wlad dan sylw yn berthnasol, gellir gofyn i ymgeiswyr ddarparu gwybodaeth bellach yn ystod y broses ymgeisio neu at ddibenion diwydrwydd dyladwy.

**Ydy sefydliadau sydd wedi cofrestru'r tu allan i'r wlad lle maent yn gweithredu yn gallu ymgeisio?**
Gall hyn ddibynnu ar gyd-destun y wlad, statws cyfreithiol, a gofynion diwydrwydd dyladwy. Rhaid i ymgeiswyr ddangos eu bod, yn gyfreithiol, yn gallu derbyn a rheoli cyllid grant a chyflawni'r gweithgaredd arfaethedig yn y wlad berthnasol. Lle bod gofyn, gall y British Council ofyn am wybodaeth gyfreithiol, drethol neu gofrestru ychwanegol. Gall prosiectau gynnwys partneriaid ychwanegol o wledydd neu leoliadau sydd ddim ar restr cyfranogwyr cymwys rhaglen

Cysylltiadau Drwy Ddiwylliant 2026, cyhyd â bod y cais yn cynnwys o leiaf un partner yn y DU ac o leiaf un partner mewn gwlad gyfranogol gymwys. Ond, ni ellir defnyddio'r grant i dalu costau partneriaid o wledydd neu leoliadau sydd heb eu cynnwys ar restr cyfranogwyr y rhaglen. Dylai ymgeiswyr roi esboniad clir o rôl unrhyw bartneriaid ychwanegol a natur eu cyfraniad. Rydym yn awgrymu'n gryf y dylai'r holl bartneriaid, gan gynnwys partneriaid ychwanegol, gytuno ar rolau, cyfrifoldebau, a dulliau gweithio clir cyn cychwyn y prosiect. Gellir amlinellu hyn drwy gytundeb rhyng-bartneriaeth neu femorandwm dealltwriaeth.

**Ydy'r un partneriaid yn cael bod yn rhan o fwy nag un cais yn y cylch grantiau yma?**
Gall partner yn y DU neu bartner mewn gwlad gyfranogol gymwys fod yn rhan o fwy nag un cais, cyhyd â bod y ceisiadau hynny'n geisiadau ar gyfer prosiect, partneriaeth neu weithgaredd cwbl wahanol. Ond, dim ond un grant y bydd y British Council yn ei ddyfarnu i unrhyw bartneriaeth. Ni ddylai ymgeiswyr gyflwyno sawl cais tebyg gyda'r un partneriaid (neu â phartneriaid gwahanol) yn y gobaith o gynyddu eu siawns o lwyddo. Rydym yn annog ymgeiswyr yn gryf i ganolbwyntio ar ddatblygu'r cais cryfaf posibl gyda'r partner mwyaf addas. Mae ansawdd, perthnasedd, natur y cydweithio a dichonoldeb yn bwysicach na nifer y ceisiadau a gyflwynir. Dylai pob cais esbonio'n glir pam fod y bartneriaeth yn addas, yr hyn y bydd pob partner yn ei gyfrannu, a sut bydd y prosiect yn hwyluso cydweithredu diwylliannol ystyrlon a sicrhau budd i bawb sy'n cymryd rhan.

**Faint o gyllid sydd ar gael?**
Mae uchafswm y grant a ddyfernir yn cael ei rannu fesul prosiect neu bartneriaeth, nid fesul partner. Rhaid i'r grant dalu am holl weithgaredd y bartneriaeth, gan gynnwys costau'r partner yn y DU a'r partner yn y wlad gyfranogol gymwys fel ei gilydd. Mae cyfyngiadau ar uchafswm y grantiau sydd ar gael yn amrywio o wlad i wlad ac maent wedi'u rhestru yn Adran 4 y ddogfen wybodaeth i ymgeiswyr.

**Beth yw'r rhesymau cyffredin sy'n peri fod cais yn aflwyddiannus?**
Mae rhesymau cyffredin yn cynnwys: rolau aneglur aelodau'r bartneriaeth; tystiolaeth wan o gydweithredu; diffyg manylder am y prosiect; amserlenni neu gyllidebau afrealistig; diffyg dogfennau ategol; gweithgareddau sy'n ymestyn y tu hwnt i'r cyfnod cyflawni cymwys; a chynigion sy'n canolbwyntio'n bennaf ar hyrwyddo yn hytrach na chydweithredu ystyrlon.

**A ddylid cyflwyno cyllidebau mewn arian lleol neu mewn punnoedd (GBP)?**
Rhaid cyflwyno cyllidebau mewn punnoedd (GBP). Mae hyn yn helpu i sicrhau cysondeb a thegwch wrth asesu ceisiadau ar draws y gwledydd sy'n cymryd rhan.

**Pwy ddylai gymryd rôl ymgeisydd arweiniol ein prosiect?**
Rydym yn argymell mai'r partner yn y wlad lle bydd y rhan fwyaf o weithgaredd y prosiect yn digwydd a ddylai gymryd rôl ymgeisydd arweiniol eich prosiect. Er enghraifft, os yw partner o'r DU a phartner wedi'i leoli yn yr Ariannin yn cydweithio, a bod prif weithgarwch y prosiect yn

digwydd yn yr Ariannin, yna, fel arfer, y partner yn yr Ariannin ddylai fod yn ymgeisydd arweiniol. Fel canllaw, os oes cyfran sylweddol o weithgarwch prosiect (er enghraifft, dros 40%) yn digwydd mewn un wlad benodol, byddai disgwyl yn arferol mai'r partner yn y wlad honno fyddai'r ymgeisydd arweiniol.

Dylai ceisiadau ar gyfer prosiectau sy'n cael eu trefnu gan (neu sy'n rhan o) wyliau Celfyddydau Gweledol, Pensaernïaeth, Dylunio, Ffasiwn neu Grefftau gael eu cyflwyno gan yr ŵyl berthnasol ac nid gan unigolion.

Bydd yr ymgeisydd arweiniol yn gyfrifol am reoli'r cytundeb grant, derbyn a rheoli arian y grant, cydlynnu'r adrodd ar weithgarwch y prosiect, a sicrhau bod yr holl bartneriaid yn ateb gofynion y rhaglen. Ond, nid yw penodi ymgeisydd arweiniol yn golygu fod prosiect yn cael ei arwain a'i siapio gan un partner yn unig. Mae disgwyl i holl bartneriaid unrhyw brosiect weithio gyda'i gilydd mewn modd cydweithredol, parchus a buddiol i bawb sy'n cyfranogi – drwy bennu rolau clir, rhannu'r broses gwneud penderfyniadau a sicrhau cydnabyddiaeth deg o gyfraniad pob partner.

Dylai'r partneriaid gytuno ar rôl yr ymgeisydd arweiniol, cyfrifoldebau, dulliau gweithio, trefniadau cyllidebu a'r broses gwneud penderfyniadau cyn cyflwyno'r cais. Dylid cadarnhau hyn drwy Lythyr Bwriad y Bartneriaeth (gan ddefnyddio'r templed a ddarperir). Mae hon yn ddogfen ofynnol. Rhaid cyflwyno'r ddogfen hon gyda dogfennau ategol eich cais.

**Pwy sy'n berchen ar unrhyw eiddo deallusol sy'n cael ei greu drwy'r prosiect?**

Cyfrifoldeb yr ymgeiswyr a phartneriaid y prosiect yw cytuno ar berchnogaeth a defnydd o unrhyw eiddo deallusol sy'n cael ei greu, ei ddatblygu neu'i rannu drwy'r prosiect. Dylai'r partneriaid drafod hyn a dod i gytundeb cyn cyflwyno'r cais. Mae hawlfraint unrhyw gynnwys gwreiddiol yn eiddo (yn awtomatig) i'r sawl a wnaeth ei greu. Mewn achos(ion) o greu ar y cyd dylai partneriaid y prosiect gytuno'n ysgrifenedig ar sut y caiff syniadau, cynigion, gweithiau celf, dyluniadau, ymchwil, deunyddiau ysgrifenedig, dogfenaeth neu allbynau creadigol eraill eu defnyddio a'u cydnabod. Yn ogystal, dylai'r partneriaid gytuno ar sut y gellir addasu a rhannu adnoddau o'r fath yn ystod y prosiect ac wedi diwedd cyfnod y prosiect. Ni ddylai partneriaid atgynhyrchu, addasu neu wneud defnydd sylweddol o unrhyw adnoddau neu ddeunyddiau a grëir neu a rennir gan bartner arall heb eu caniatâd.

Mae hyn yn cynnwys cynigion ysgrifenedig, cysyniadau ar gyfer prosiectau, deunyddiau artistig, delweddau, dyluniadau, cynlluniau, recordiadau, ymchwil, gwybodaeth gymunedol neu unrhyw gynnwys creadigol arall. Fel arfer nid yw'r British Council yn berchen ar eiddo deallusol sy'n cael ei greu drwy brosiectau a ariennir gennym. Ond, fel rhan o'r cytundeb grant, mae gofyn i ymgeiswyr llwyddiannus roi caniatâd i'r British Council ddefnyddio gwybodaeth am brosiect, delweddau, recordiadau neu ddeunyddiau perthnasol ar gyfer adrodd, gwerthuso, cyfathrebu a dibenion hyrwyddo anfasnachol. Dylai ymgeiswyr sicrhau bod caniatâd, trwyddedau a'r hawliau priodol ganddynt i ddefnyddio unrhyw ddeunydd trydydd parti sy'n rhan o weithgarwch y prosiect. Ni all y British Council ddarparu cyngor cyfreithiol ar faterion yn ymwneud ag eiddo deallusol, a dylai ymgeiswyr geisio cyngor annibynnol lle bo angen hynny.

**Ydw i'n gallu defnyddio adnoddau Deallusrwydd Artiffisial (DA) i helpu wrth baratoi fy nghais?**

Gall ymgeiswyr ddefnyddio adnoddau Deallusrwydd Artiffisial (DA) i'w helpu wrth baratoi eu cais. Er enghraifft, i helpu strwythuro syniadau, gwneud pethau'n gliriach neu wirio sillafu a gramadeg. Ond, rhaid i'r cais fod yn adlewyrchiad cywir o brosiect, partneriaeth, cyllideb, profiad a bwriadau penodol yr ymgeisydd.

Rhaid i ymgeiswyr fod yn gwbl gyfrifol am y cynnwys a gyflwynir ganddynt. Rhaid i unrhyw wybodaeth a ddarperir fod yn gywir, yn wreiddiol lle bo gofyn, ac wedi cytuno arno gan holl bartneriaid y prosiect. Ni ddylid defnyddio cynnwys a grëwyd gan DA i roi atebion camarweiniol, generig neu anghywir nac ychwaith i gyflwyno profiad, partneriaeth, gweithgarwch neu dystiolaeth nad yw'n real.

Os ydych wedi defnyddio DA i greu cynnwys, neu os yw eich cynnwys wedi dibynnu'n drwm ar ddefnydd o DA, dylid cydnabod hynny'n glir ar ddechrau'r adran neu'r ddogfen berthnasol gyda'r geiriau: **"Cynhyrchwyd gyda chymorth Deallusrwydd Artiffisial"**. Bydd ceisiadau sy'n cynnwys gwybodaeth ffug neu gamarweiniol neu wybodaeth a gopïwyd neu nas profwyd yn cael eu dyfarnu'n anghymwys ac ni fyddant yn cael eu hystyried.

**Beth yw safbwynt y British Council ar lên-ladrad?**

Rhaid i ymgeiswyr sicrhau eu bod yn defnyddio eu gwybodaeth eu hunain wrth wneud cais - gan gynnwys syniadau, testunau, delweddau, cysyniadau'r prosiect, deunyddiau artistig a dogfennau ategol. Rhaid iddynt hefyd sicrhau bod caniatâd ganddynt i'w defnyddio.

Mae llên-ladrad yn golygu cyflwyno gwaith, syniadau, geiriau neu ddeunyddiau rhywun arall fel eich rhai chi, a heb ganiatâd na chydnabyddiaeth briodol. Mae hynny'n cynnwys copïo neu ddefnyddio atgynhyrchiad tebyg iawn o gynnig ysgrifenedig, cysyniad ar gyfer prosiect, gwaith artistig, ymchwil, delweddau, dyluniadau, recordiadau neu unrhyw gynnwys creadigol gan berson arall.

Os yw cais yn cael ei lunio ar y cyd, rhaid i'r holl bartneriaid gytuno ar ba wybodaeth a deunyddiau y gellir eu cynnwys a sut y gellir eu defnyddio yn ogystal â'r modd y dylid cydnabod hynny.

Bydd ceisiadau sy'n cynnwys deunydd wedi'i lên-ladrata neu'i gopïo, neu ddeunydd camarweiniol neu ddeunydd a ddefnyddir heb ganiatâd yn cael eu dyfarnu'n anghymwys, ac ni fyddant yn cael eu hasesu. Os canfyddir hyn yn hwyrach yn y broses, gall arwain at dynnu cyllid yn ôl neu derfynu'r cytundeb grant.

**A ellir cynnwys costau gofynion hygyrchedd fel rhan o gais?**

Rhaid cynnwys unrhyw gostau gofynion hygyrchedd ar gyfer cynulleidfaoedd, cyfranogwyr, canolfannau, digwyddiadau, cyfathrebu neu weithgaredd yn ymwneud â'r cyhoedd ym mhrif gyllideb y prosiect. Gall ymgeiswyr wneud cais am gostau hygyrchedd personol ychwanegol lle rhoddir tystiolaeth bod eu hangen ar aelodau craidd y tîm i gyflawni'r prosiect. Noder na warentir ceisiadau am gostau hygyrchedd, er ein bod yn amcanu i roi cymorth gydag unrhyw ofynion

hygyrchedd a nodir gan ymgeiswyr lle bo hynny'n bosibl. Noder nad yw hyn yn cynnwys costau gofal plant ar hyn o bryd.

**Beth sy'n digwydd os nad yw'r gyllideb yn cael ei rhannu'n gyfartal rhwng partneriaid?**
Dylai ymgeiswyr esbonio pam fod y rhaniad cyllid arfaethedig yn briodol, a sut mae hynny'n dal i alluogi cydweithredu teg er budd y ddwy ochr. Wrth asesu byddwn yn ystyried a yw'r gyllideb yn adlewyrchu cydweithredu gwirioneddol, budd i'r ddwy ochr, a rolau clir i'r ddau bartner.

**Os ydw i wedi derbyn grant gan y British Council o'r blaen, ydw i'n cael ymgeisio ar gyfer y rhaglen yma?**
Gall ymgeiswyr sydd wedi derbyn cyllid gan y British Council o'r blaen ymgeisio ar gyfer y rhaglen yma cyhyd â bod hwn yn gais ar gyfer prosiect newydd, cymal newydd, partneriaeth newydd neu weithgaredd sydd wedi datblygu'n sylweddol. Ni ellir ymgeisio eto ar gyfer yr un gweithgaredd os yw wedi derbyn cyllid gennym yn barod.

**Oes angen i bartneriaid gytuno ar rolau a chyfrifoldebau cyn i'r prosiect gychwyn?**
Oes. Dylai ymgeiswyr gytuno ar rolau a chyfrifoldebau clir ar gyfer holl bartneriaid y prosiect cyn i'r prosiect gychwyn. Dylai hynny gynnwys: pwy sy'n gyfrifol am gyflawni'r prosiect; rheoli'r gyllideb; taliadau i artistiaid neu gyflenwyr; adrodd ar weithgarwch y prosiect; cyfathrebu; diogelu; cefnogaeth hygyrchedd; eiddo deallusol; gwneud penderfyniadau; a datrys gwrthdaro. Dylai ymgeiswyr roi esboniad clir o rôl unrhyw bartneriaid ychwanegol a'r rhan y byddant yn ei chwarae. Rydym yn awgrymu'n gryf fod pob partner, gan gynnwys partneriaid ychwanegol, yn cytuno ar rolau, cyfrifoldebau a dulliau gweithio clir cyn i'r prosiect gychwyn. Gellir amlinellu hyn mewn cytundeb rhyng-bartneriaeth neu femorandwm o ddealltwriaeth.

**Sut bydd ymgeiswyr yn cael eu hasesu?**
Bydd ceisiadau cymwys yn cael eu hasesu yn erbyn pump o feini prawf: ansawdd a gwerth artistig neu greadigol; partneriaeth a chydweithredu; dichonoldeb a rheolaeth y prosiect; ymgysylltiad ac effaith ar gyfranogwyr neu gynulleidfa; a gwerth o ran cydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant, cynaliadwyedd amgylcheddol a gwerth cymdeithasol.

**Pa wybodaeth a dogfennau ategol sydd eu hangen wrth gyflwyno cais?**
Mae angen i ymgeiswyr ddarparu gwybodaeth sy'n esbonio'r gweithgaredd arfaethedig a pham ei fod yn berthnasol yng nghyd-destun y bartneriaeth. Dylai hynny gynnnwys: gwybodaeth am bob partner; a ydych yn ymgeisio fel unigolyn neu sefydliad; amserlen neu linell amser y prosiect; cyllideb y prosiect gan gynnwys trefniant wrth gefn; cynllun rheoli risg y prosiect; a chynllun diogelu lle mae plant, pobl ifanc, oedolion bregus neu weithgarwch risg uchel yn rhan o'r prosiect.
Gall y dogfennau ategol gofynnol amrywio yn ôl y math o ymgeisydd, y wlad lle mae'r gweithgaredd yn cael ei gynnal, a natur gweithgaredd y prosiect. Mae'n bosibl y gofynnir i

ymgeisydd am: CV neu fywgraffiad os ydynt yn gwneud cais fel unigolyn neu os enwir artistiaid, dylunwyr neu ymarferwyr yn y cais; Llythyr Bwriad y Bartneriaeth – yn defnyddio'r templed a ddarperir; dolenni, portffolios neu enghreifftiau o waith blaenorol lle bo hynny'n berthnasol; a chadarnhad o leoliad yr ŵyl neu'r ŵyl ddwyflynyddol, neu'r ganolfan neu leoliad y cyflwyniad cyhoeddus lle bo hynny'n berthnasol.

**Ydw i'n gallu gofyn am gymorth neu addasiadau hygyrchedd i gwblhau fy nghais?**
Ydych. Os oes angen cymorth neu addasiadau hygyrchedd arnoch i gwblhau eich cais, cysylltwch â'r British Council gan ddefnyddio'r Ffurflen Ymholiadau yn Adran 19.
Wrth gyflwyno'ch cais am gymorth, dylech gynnwys manylion perthnasol fel y math o gymorth sydd ei angen, amcangyfrif o unrhyw gostau cysylltiedig, esboniad byr o pam fod angen y cymorth a sut y bydd yn eich helpu i gwblhau eich cais.
Rydym yn annog ymgeiswyr i gysylltu â ni cyn gynted â phosibl a pheidio gadael ceisiadau am gymorth hygyrchedd tan drothwy'r dyddiad cau. Caiff ceisiadau am gymorth eu hasesu fesul achos, ac rydym yn anelu i ymateb i geisiadau am gymorth o fewn 2 i 3 diwrnod gwaith ar gyfartaledd.

**Sut dylid rhannu'r arian grant rhwng partneriaid?**
Rydym yn argymell rhannu'r cyllid grant mor gyfartal ag y bo modd rhwng y partner yn y DU a'r partner yn y wlad gyfranogol gymwys. Fel canllaw, dylai ymgeiswyr anelu i sicrhau rhaniad 50/50 lle bo hynny'n briodol a realistig. Os nad yw'r gyllideb yn cael ei rhannu'n gyfartal, dylai ymgeiswyr roi esboniad clir o'r rhesymeg dros hynny a dangos sut mae'r rhaniad arfaethedig yn deg, cymesur a phriodol yng nghyd-destun cyflawni'r prosiect.

**A ellir gwneud newidiadau i'r prosiect ar ôl iddo gael ei gymeradwyo?**
Rhaid i unrhyw newid arwyddocaol i brosiect gael ei gymeradwyo'n ysgrifenedig gan y British Council cyn gwneud y newid hwnnw. Mae hynny'n cynnwys newidiadau i bartneriaid, amserlen, cyllideb, lleoliad, gweithgaredd neu ganlyniadau'r prosiect. Ni roddir cymeradwyaeth yn awtomatig i gais o'r fath a bydd yn cael ei ystyried fesul achos

**A ellir gwneud cais ar gyfer gweithgaredd sydd wedi dechrau'n barod?**
Na. Yn arferol, ni all y grant gefnogi gweithgaredd sydd wedi digwydd yn barod, ac ni ellir talu costau a dalwyd cyn arwyddo'r cytundeb grant. Ni ddylai ymgeiswyr wneud ymrwymiadau ariannol, dechrau ar weithgaredd sydd i'w ariannu gan y grant, na chymryd yn ganiataol fod cyllid wedi cael ei gymeradwyo hyd nes eu bod yn derbyn cadarnhad ffurfiol a chwblhau'r broses gytundebu ofynnol.

**A gawn ni ymgeisio os ydym wedi gweithio gyda'n gilydd o'r blaen?**
Cewch. Mae croeso i bartneriaid sy'n gweithio gyda'i gilydd yn barod i ymgeisio, ond dylai'r cais ddangos yn glir yr hyn sy'n newydd neu'n ychwanegol am y prosiect arfaethedig.